

## Llawenydd yr Ŵyl

### Pa un yw eich hoff Garol?

Mae cymaint o ddewis ar gael ac mae'n siŵr fod yr angen i ni fyfyrto o'r newydd yn eu cylch yn fwy nag erioed eleni! Hyd yn oed mewn blwyddyn a fu'n llawn ansicrwydd a phryder fel 2020, daw'r Nadolig â llawenydd i ni. Ers sawl blwyddyn rydym wedi cychwyn ein Gwasanaeth Nadolig yn y Neuadd Bentref yn Felindre, Powys gyda charol o eiddo Isaac Watts, "Joy to the World". Mae'r geiriau hyn a ysgrifennwyd 300 mlynedd yn ôl yn seiliedig ar Salm 98 ac maent yr un mor wir heddiw ag yr oeddent bryd hynny. "Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn" yw'r fersiwn gyfatebol Gymraeg.

Mae sawl un o'r enwadau Cristnogol yn dathlu'r trydydd Sul yn yr Adfent, sef y 13eg o Ragfyr eleni, fel Sul Gaudete sy'n golygu "llawenhewch" yn y Lladin. Eglura Henri Nouwen, Gweinidog o'r Iseldiroedd, beth yw'r gwahaniaeth rhwng hapusrwydd a llawenydd i'r Cristion. Tra bo

hapusrwydd yn dibynnu ar amodau allanol, er enghraifft, cyfarfod rhywun ar hap, neu hyd yn oed y tywydd, dywed Nouwen: "Llawenydd yw'r profiad o wybod eich bod yn cael eich caru'n ddiamod ac na all unrhyw beth - salwch, methiant, gofid emosiynol, gormes, rhyfel, neu hyd yn oed farwolaeth - fynd â'r cariad hwnnw oddi wrthyh...mae'n rhaid i ni ddewis llawenydd a pharhau i'w ddewis bob dydd".


Gan ddymuno llawenydd a thangnefedd i chi'r Nadolig hwn ac yn wastadol.

Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,  
 a deued pawb ynghyd  
 i'w dderbyn a'i gydnabod ef  
 yn Geidwad i'r holl fyd,  
 yn Geidwad i'r holl fyd  
 yn Geidwad, yn Geidwad i'r holl fyd.

*J R Jones, Aberystwyth*

*Mrs Janet Matthews,  
 Llywydd yr Adran Ddi-Gymraeg*

## Taith Drwy'r Adfent



Yn ystod y flwyddyn hon o weddi gwerthfawrogwn gyfle i deithio drwy'r Adfent gan ddefnyddio'r adnodd dwyieithog a baratowyd gan y Parchg Tim Moody o Moriah, Rhisga. Os ydych am gopi personol ewch i wefan Undeb Bedyddwyr Cymru a chlicio ar "Newyddion—Adnodd Newydd".

### LLAWLYFR 2021

Pris drwy'r post: £8.00

Yn ystod cyfyngiadau'r Covid-19 fe'i ceir drwy'r post yn unig.

## Apêl Timothy Richard

### Addysg i Blant Syria

Rhag ofn nad yw eich Eglwys wedi cael cyfle i gyfrannu tuag at yr Apêl, beth am gynnal Oedfa Timothy Richard ar Sul cyntaf y Grawys, 21 Chwefror 2021?

Edrychwn ymlaen at rannu dau adnodd arbennig ar gyfer yr Apêl yn y flwyddyn newydd.

Yn gyntaf, mewnwelediad o'r sefyllfa yn Lebanon drwy lygaid Dr Nabil Costa. Mae Nabil yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cymdeithas Lebanon ar gyfer Datblygiad Addysgiadol a Chymdeithasol ac yn Ysgrifennydd Cymdeithas yr Ysgolion Efengylaidd yn Lebanon. Gwasnaethodd fel Is-Lwydd Cynghrair Bedyddwyr y Byd o 2010-15.

Yn ail, byddwn yn dosbarthu deunydd defosiynol a baratowyd yn arbennig ar ein cyfer gan y Parchedig Peter Thomas, Aberystwyth.

### CYFLOGAU A THREULIAU

#### GWEINIDOGION 2021

Cynnydd 0.7% (CPI Hydref 2020)

Cyflog Safonol £23,685

Treuliau £2,404

Lwfans Tŷ £3,939

### Y GYLLIDEB GYFAN

2021

£17.50 yr aelod

**CYFARCHION Y NADOLIG ODDI WRTH**

**JUDITH, MENNA, SIMEON, BONNI, NIGEL, HELEN A CHRISTIAN.**

# SEFYDLU ACADEMI HEDDWCH YNG NGHYMRU

**21 Medi 2020, a daeth Cymru yn rhan o gymuned fyd-eang fel gwlad sydd â chorff ymchwil a gwybodaeth sydd wedi ei neilltuo i heddwch. Sefydlwyd Academi Heddwch Cymru yn swyddogol ar Ddiwrnod Rhyngwladol Heddwch.**

Chwalwyd ein cynlluniau i lansio'r Academi 'go iawn' yn Eisteddfod Tregaron, fel cymaint o gynlluniau eraill, oherwydd y pandemig. Er ein bod wedi ein siomi wrth reswm, y penderfyniad oedd bwrw ymlaen gyda chyhoeddi bodolaeth yr Academi doed a ddêl, ac yn sicr, bydd angen yr Academi i godi Cymru eto wedi'r cyfnod hwn o drawma, er mwyn sicrhau y bydd ein dyfodol yn wahanol.

Roedd llawer ohonom wedi ymgyrchu am dros ddeng mlynedd i sicrhau bod gan Gymru ei sefydliad heddwch ei hunan. Mae gan y rhan fwyaf o wledydd yn y byd gyrff cyffelyb er eu bod yn amrywio'n fawr iawn. Mae hunaniaeth a hawliau lleiafrifoedd yn nodwedd amlwg o nifer ohonynt. Roedd hi felly'n hanfodol bod yr Academi Heddwch yn benodol Gymreig ac yn ymateb i'n hanghenion ni ein hunain.

Cododd y syniad yn wreiddiol yn dilyn cynllun gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i breifateiddio ac uno holl hyfforddiant y lluoedd arfog mewn un academi filwrol enfawr yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg. Byddai hwn wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer paratodau pob rhyfel, nid yn unig i'r Deyrnas Gyfunol ond i unrhyw wlad arall a fynnai dalu am yr hyfforddiant.

Croesawyd y cynnig gan Lywodraeth Cymru a nifer o wleidyddion. Ystyriwyd y peth yn fuddsoddiad ariannol allweddol. Roedd addewid am filoedd o swyddi. Sgubwyd ffeithiau cadarn a chwestiynau dilys o'r neilltu. Nid swyddi newydd oedd y rhan fwyaf o bell ffordd, ond swyddi a fyddai'n cael eu hadleoli o rannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol. Ymosododd y cyfryngau ar lawer ohonom a wrthwynebai'r cynlluniau. Cefais i fy ngalw yn 'beryglus' hyd yn oed!

Roedd popeth yn cael ei droi tu chwith allan. Yn groes i'n traddodiad heddychlon hir ni, roedd Cymru ar

fin dod yn ganolbwynt ar gyfer paratodau byd-eang rhyfela. Hir fu'r ymholi poenus am sut yn y byd y gallai ein gwleidyddion ddechrau meddwl am y fath ddyfodol i'n cenedl ni.

Trafodais hyn oll gyda Nelly Maes, cyn-gydweithwraig i mi o'r Fflandrys yn Senedd Ewrop. Awgrymodd hi y dylem ni weithio dros sefydlu Academi Heddwch, fel sydd gyda nhw yn Fflandrys, i gynnig cyngor a gwybodaeth i'r Llywodraeth. Sefydlwyd Academi Heddwch Fflandrys yn 2004 a caiff ei ariannu gan Lywodraeth Fflandrys. Mae gan y senedd yno ddyletswydd i ymgynghori â'r Academi ac ystyried ei gyngor. Mae'n sicrhau bod *pob* agwedd o unrhyw argymhelliad yn cael ei ystyried yn nhermau'r goblygiadau ehangach.

Siaradais yn helaeth ac eang am yr angen i gael sefydliad tebyg yng Nghymru, ac mewn byr o dro enillodd y syniad gefnogaeth. Cyflwynwyd deiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2010 gyda dros 1,500 o enwau. Cefnogodd y Cynulliad y syniad mewn egwyddor, er nad oedd unrhyw nawdd ariannol ar gael a ninnau yn nyfnderoedd y polisïau llymder.

Am flynyddoedd wedyn aeth grŵp llywio bach ond ymroddgar ati i ystyried opsiynau am sut y gellid creu corff a fyddai'n unigryw i Gymru, ac a fyddai'n ennyn parch Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn gweithredu'n effeithiol. Mae gyda ni fudiad heddwch yng Nghymru sy'n ymgyrchu'n effeithio ar lawer o bynciau. Bydd yr Academi Heddwch fodd bynnag yn rhywbeth tra gwahanol. Bydd yn tynnu arbenigwyr ac academyddion ynghyd i gynhyrchu adroddiadau a fydd yn gallu ein tywys wrth i ni geisio adeiladu cymdeithas gynaliadwy a heddychlon yn yr ystyr ehangaf posib.

Nid diffyg rhyfel yw ystyr heddwch. Mae'n ymwneud ag absenoldeb trais, ac â chynladwyedd, cydraddoldeb a chyfiawnder. Bydd Academi sy'n ymchwilio i effeithiau posib penderfyniadau llywodraeth ac i bosibiliadau gweithredoedd llywodraeth gan gynnwys addysg, yn dod â budd mawr i ni.

Mae'r Academi Heddwch wedi tynnu ynghyd bob un o brifysgolion Cymru a hefyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Gymdeithas Ddysgedig, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru a'r mudiad heddwch. Mae gennym ni hefyd gefnogaeth swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ein blwyddyn sefydlu, byddwn yn gweithio ar ehangu ein hapêl i wahanol sectorau ac ar hyrwyddo gwerth yr Academi Heddwch.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ceisio adnabod y gwaith ymchwil sydd eisoes yn digwydd ac a all gyfrannu at ein dealltwriaeth o'n hanes ac o'n dyfodol o ran Cymru fel cenedl heddwch. Rydym yn bwriadu trefnu cynadleddau a seminarau yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau.

Un o brosiectau ymarferol yr Academi yw arwain ar waith i gofnodi a chodi ymwybyddiaeth o ddeiseb heddwch menywod Cymru i'r UDA yn 1924. Rydym yn paratoi ar gyfer arddangosfa yn y Llyfrgell a'r Amgueddfa Genedlaethol lle bydd gennym esiamplau o'r ddeiseb wreiddiol a, gobeithio, y gist dderw a gludodd y llofnodion i gyd ar fenthyg o sefydliad y Smithsonian yn Washington. Rydym hefyd yn paratoi llyfr i gofnodi'r ddeiseb ryfeddol hon. Cartref yr Academi fydd y Deml Heddwch ac Iechyd yng Nghaerdydd, er y bydd yn gweithio ledled y wlad i gyd a thu hwnt.

Megis dechrau yw hyn oll, ond rwy'n argyhoeddedig y bydd yr Academi Heddwch yn tyfu i fod yn sefydliad gwerthfawr i Gymru ac y bydd yn rhoi ein baner yn glir ar y map heddwch rhyngwladol.

Mae wedi bod yn broses hir ac anodd yn aml ac mae lle i ddiolch yn fawr i lawer iawn o bobl sydd wedi chwarae eu rhan ar hyd y siwrnai. Heb ymdrech pawb fydden ni ddim wedi gallu dod mor bell â hyn. Fodd bynnag, mae ffordd bell o'n blaenau eto.

**Bu 2020 yn flwyddyn o greisis a phryder. Mae sefydlu'r Academi Heddwch yn cynnig un pelydryn o olau drwy'r tywyllwch: golau a fydd yn ein harwain ar hyd llwybr tuag at ddyfodol gwahanol a gwell.**

*Jill Evans*

*Cyn Aelod Seneddol Ewrop*

## Joy To The World

### Which is your favourite Carol?

There are so many to choose from and our need to revisit, reflect and rethink them is surely greater than ever this year! Even in 2020 when our world and lives are filled with so much uncertainty and anxiety, Christmas comes to bring us joy. For several years we have opened our Christmas Service in a Village Hall in Felindre, Powys with Isaac Watts' carol "Joy to the World". These words, written 300 years ago, and based on Psalm 98 are as true today as they were all those years ago.

Many Christian denominations celebrate the third Sunday in Advent, December 13<sup>th</sup> this year, as Gaudete Sunday which means "rejoice" in Latin. Henri Nouwen, a Dutch Minister, explains the difference between the happiness and joy of being a Christian. While happiness is dependent on external conditions, for

example, a chance meeting with someone, even the weather, he writes:

"Joy is the experience of knowing you are unconditionally loved and that nothing – sickness, failure, emotional distress, oppression, war, even death, can take that love away... we have to choose joy and keep on choosing it every day".

Wishing you joy and peace this Christmas and always.

Joy to the World, the Lord has come!

let earth receive her King;  
 let every heart prepare Him room  
 and heaven and nature sing,  
 and heaven and nature sing,  
 and heaven, and heaven and  
 nature sing.

*Isaac Watts*

*Mrs Janet Matthews, President of the English Language Wing*

## Advent Journal



During this year of prayer we have appreciated the opportunity to journey through Advent using a bilingual resource prepared by Revd Tim Moody from Moriah, Risca. If you would like a personal copy go to the BUW website and click on "Latest news—Advent Resource".

### 2021 HANDBOOK

Price £8.00

Available only by post during Covid-19 restrictions

## Timothy Richard Appeal Education for Syrian Children

**In case your Church has not had an opportunity to contribute to the Timothy Richard Appeal, why not hold a Timothy Richard Service on the first Sunday of Lent, 21<sup>st</sup> February 2021?**

We look forward to sharing two new resources with you for the Appeal in the New Year.

Firstly, an insight into the situation in Lebanon through the eyes of Dr Nabil Costa. Nabil is the Executive Director for the Lebanese Society for Educational and Social Development and is the General Secretary for the Association of Evangelical Schools in Lebanon. He served as a Vice-President of the Baptist World Alliance from 2010-2015.

Secondly, we will be sharing new devotional material prepared especially for us by the Reverend Peter Thomas, Aberystwyth.

### STANDARD MINISTERIAL STIPEND 2021

Increase of 0.7% (October CPI)	
Standard Stipend	£23,685
Expenses	£2,404
House Allowance	£3,939

### CONSOLIDATED BUDGET - 2021

£17.50 per member

## CHRISTMAS GREETINGS FROM

**JUDITH, MENNA, SIMEON, BONNI, NIGEL, HELEN AND CHRISTIAN.**



# THE PEACE INSTITUTE IN WALES

**On 21st September Wales joined the world in having its own research and information body dedicated to peace. Academi Heddwch Cymru was officially established on International Peace Day.**

Our plans for an actual launch at the Tregaron Eisteddfod, like so many other things, were ruined by the pandemic. Whilst disappointed, we decided to go ahead and bring the Academi into being nevertheless. Building Wales back after this year of trauma will need the input of the Academi Heddwch to ensure that our future is different.

Many of us had campaigned for over ten years for Wales to have our own Peace Institute. Most countries in the world have one although they vary greatly in nature. Identity and minority rights are a significant feature of several. It was vital that our Academi Heddwch would be specifically Welsh and respond to our needs.

The idea was first proposed following UK government plans to privatise and merge all military training at a massive military academy in Sain Tathan in the Vale of Glamorgan. This would have been the focus of all war preparations, not only for the UK but for any other countries that wished to pay for training.

The proposal was welcomed by the Welsh Government and many politicians. It was seen as a crucial financial investment. Thousands of new jobs were promised. Real facts and concerns about the academy were brushed aside. Most of the jobs were not new but would have been relocated from other parts of the UK. Many of us who opposed the plans were attacked in the media. I was even called “dangerous”!

Everything was being turned on its head. Contrary to our long peace tradition, Wales was set to become the focus of global war preparations. We agonised about how our politicians could entertain such a future for our nation.

I discussed this with a Flemish former colleague of mine in the

European Parliament, Nelly Maes. She suggested we should work for a Peace Institute, as they have in Flanders, to advise and inform government decisions. The Flemish institute was set up in 2004 and funded by the Flemish Parliament. The parliament had a duty to consult it and consider its advice. It ensures that *all* aspects of any proposal are considered in terms of its wider impact.

I talked widely about the need for a Peace Institute in Wales and the idea quickly gathered support. A petition to the National Assembly in 2010 gathered over 1,500 signatures and it was supported in principle by the Assembly, although at the height of austerity policies no funding was available.

In subsequent years our small but dedicated steering group has explored many options for setting up a body that was unique to Wales and which would have the respect of the Welsh Government and others in order to function effectively. We have an active peace movement in Wales which campaigns on many issues. The Academi Heddwch is something quite different. It will bring together experts and academics to produce reports to guide us in building a sustainable and peaceful society in its broadest sense.

Peace does not just mean the absence of war. It is about non-violence, sustainability, equality and justice. An academy which researches the effects of government decisions and the possibilities for government action, including in education, will be of huge benefit.

The Academi Heddwch has brought together all our universities, the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, the Welsh Centre for International Affairs, the Learned Society and the peace movement. We also have the support of the office of the Future Generations Commissioner. In our foundation year we will work on broadening our appeal to all sectors of society and on promoting the added value the Academi Heddwch brings.

We are in the process of identifying research work already being undertaken which can contribute to our understanding of our history and our future in terms of Wales as a nation of peace. We plan to organise conferences and seminars when circumstances allow as well as publishing reports.

One of the Academi's first practical projects is leading the work to commemorate and raise awareness of the women's peace petition to the USA in 1924. We are preparing for an exhibition in the National Museum and in the National Library where we will have samples of the petition and hopefully the oak chest in which it was transported, on loan from the Smithsonian Institution in Washington. We are also preparing a book about this remarkable achievement.

The Academi has its base in the Temple of Peace and Health in Cardiff, although in reality the work will take place throughout the country.

It is early days but I do believe that our Academi Heddwch will become a valuable and valued asset for Wales. It will put us firmly on the international peace map.

It has been a long and often arduous process and huge thanks are due to the very, very many people who have played a part along the way. Without all of that effort we could not have come so far. However, we still have a long way to go.

**2020 has been a year of crisis and anxiety. The establishment of the Academi Heddwch has been one bright light in the darkness: a light that will help guide our path to a better and a different future.**

*Jill Evans,  
Former MEP*

Academi  
Heddwch

The Peace Institute  
in Wales